



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales
(The Official Record)**

**Agoriad Swyddogol Brenhinol
Ail Gynulliad Cenedlaethol Cymru
The Royal Official Opening
of the Second National Assembly for Wales**

**Dydd Iau 5 Mehefin 2003
Thursday 5 June 2003**

*Cyrhaeddodd y Parti Brenhinol y Siambwr am 12.10 p.m.
The Royal Party arrived in the Chamber at 12.10 p.m.*

Y Llywydd: Prynhawn da. Fy mraint a'm dyletswydd fel Llywydd yw croesawu Eich Mawrhydi, Dug Caeredin ac Iarll Meirionnydd a Thywysog Cymru i Agoriad Swyddogol Brenhinol Ail Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr ydych wedi ein hanrhydeddu â'ch presenoldeb ar sawl achlysur yn y gorffennol, a bu i'ch ymwneud â ni yn ystod y Cynulliad cyntaf ddangos cefnogaeth a chydabyddiaeth i'n hymdrechion i greu sefydliad democrataidd newydd.

Your Majesty, it is always a pleasure to welcome you here, as we have done on several occasions. However, it is a pleasant coincidence that today's royal opening takes place in the week in which you celebrated 50 years since your coronation.

Her Majesty The Queen: Presiding Officer and Members of the National Assembly for Wales, I am most grateful for the invitation to speak here again and to have the opportunity to address those Members newly elected to this, the second National Assembly for Wales. I am delighted to be able to do so at this early moment of your term of office and to congratulate you on your election last month.

The theme of the celebration in the Church of St Mary the Virgin, which I was pleased to attend with you earlier today, was the importance of bridge-building in leadership. That celebration itself spanned different faith communities and religious traditions. This theme—exemplified by the text taken from one of the greatest works of early Welsh prose—is as important for leaders today as it was in the past.

Bridges span divides; they unite people. As elected Members, these are roles that you fulfil. The essence of representative democracy is that elected members are the means by which the wishes and needs of the citizens are articulated to government at all levels on those matters for which they are responsible. You are bridges between the

The Presiding Officer: Good afternoon. It is my duty and privilege as Presiding Officer to welcome Your Majesty, The Duke of Edinburgh and the Earl of Merioneth and the Prince of Wales to the Royal Official Opening of the Second National Assembly for Wales. You have graced us with your company on several occasions in the past, and your involvement with us during the first Assembly has shown strong support and recognition of our efforts to create a new democratic institution.

Eich Mawrhydi, y mae'n bleser o hyd eich croesawu yma, fel y gwnaethom ar sawl achlysur. Fodd bynnag, mae'n gyddigwyddiad hyfryd bod yr agoriad brenhinol heddiw yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnos pan fu ichi ddathlu hanner can mlwyddiant eich coroni.

Ei Mawrhydi Y Frenhines: Lywydd ac Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr wyf yn hynod ddiolchgar am y gwahoddiad i siarad yma eto ac am y cyfle i annerch yr Aelodau newydd hynny a etholwyd i ail Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr wyf wrth fy modd o allu gwneud hynny mor gynnar yn eich cyfnod fel Aelodau a'ch llongyfarch ar gael eich ethol fis diwethaf.

Thema'r dathliad yn Eglwys y Santes Fair Forwyn, yr oeddwn yn falch o'i fynychu yn eich cwmni yn gynharach heddiw, oedd pwysigrwydd adeiladu pontydd wrth arwain. Yr oedd y dathliad hwnnw yn pontio gwahanol gymunedau ffydd a thraddodiadau crefyddol. Mae'r thema hon—a amlygir gan y testun o un o'r darnau pwysicaf o ryddiaith Gymraeg gynnar—yr un mor bwysig i arweinwyr heddiw ag y bu yn y gorffennol.

Mae pontydd yn creu cyswllt lle bu rhaniadau; maent yn uno pobl. Fel Aelodau etholedig, mae'r rhain yn ddyletswyddau yr ydych yn ymgymryd â hwy. Hanfod democratiaeth gynrychioliadol yw mai aelodau etholedig yw'r cyfrwng ar gyfer cyfleu dymuniadau ac anghenion dinasyddion i bob lefel o lywodraeth ar y materion hynny

people and the devolved government of Wales.

It is easier to perform that role when the electorate can recognise that its representatives mirror the wider society. How proud you must all be in this new Assembly: it is the first legislative body in Europe, and perhaps the world, to have an equal number of women and men among its Members. Another impressive feature of this Chamber has always been, from the start, your commitment to accountability and transparency through electronic communication and the broadcasting of your proceedings. I know that the way in which you have addressed this commitment has stimulated interest in other and older parliaments, both within the United Kingdom and in the wider Commonwealth.

These are eye-catching and important ways in which the Assembly is breaking new ground, but we must always remember that any new constitutional organisation takes time to settle and deliver. This Assembly is still a young institution, but it is already making its mark. The steps towards devolution enacted at the very end of the twentieth century, including the establishment of the National Assembly for Wales, are now defined features of the political landscape of the United Kingdom. They are being accommodated and embraced within that vital and sustaining structure shaped by centuries of pragmatic evolution which we know as the British constitution.

I, for my part, would like to take this opportunity to assure you all of my continuing interest in the work of this Assembly and the essential role that it increasingly plays in decisions on resources and legislation in those matters that directly affect the lives of the people of Wales.

It is vital to the health of both the United Kingdom and Wales that our democratic institutions flourish and adapt. The process of election is the fundamental means by which every elector can participate in this business of government. I share your concerns that everyone must be encouraged to exercise their rights as voters. This is a real challenge

y maent yn gyfrifol amdanynt. Chi yw'r pontydd rhwng pobl Cymru a'i llywodraeth ddatganoledig.

Mae'n haws ymgymryd â'r rôl honno pan fo'n glir i'r etholwyr y caiff y gymdeithas ehangach ei hadlewyrchu yn eu cynrychiolwyr. Mae'n rhaid eich bod oll mor falch mai'r Cynulliad newydd hwn yw'r corff deddfwriaethol cyntaf yn Ewrop, ac yn y byd efallai, sydd â nifer cyfartal o ddynion a menywod yn Aelodau ohono. Un o nodweddion eraill y Siambr hon sy'n creu argraff yw eich ymrwymiad, ers y cychwyn, i atebolrwydd a thryloywder drwy gyfathrebu electronig a thrwy ddarlledu eich trafodion. Gwn fod y modd yr ydych wedi mynd i'r afael â'r ymrwymiad hwn wedi ysgogi diddordeb mewn seneddau eraill, hŷn, yn y Deyrnas Unedig ac yn ehangach yn y Gymanwlad.

Mae'r Cynulliad, felly, yn torri tir newydd mewn ffyrdd pwysig a thrawiadol, ond rhaid inni gofio o hyd bod unrhyw sefydliad cyfansoddiadol newydd yn cymryd amser i fwrw gwreiddiau a dechrau cyflawni. Sefydliad ifanc yw'r Cynulliad hwn o hyd, ond y mae eisoes yn cael dylanwad. Mae'r camau tuag at ddatganoli a gymerwyd ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, gan gynnwys sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, bellach yn nodweddion pendant yn nhirlun gwleidyddol y Deyrnas Unedig. Cânt eu cynnwys a'u cwmpasu o fewn y strwythur hanfodol a chynhaliol sydd wedi'i lywio gan ganrifoedd o esblygiad pragmatig, ac a elwir yn gyfansoddiad Prydain.

Yr wyf am fanteisio ar y cyfle hwn i'ch sicrhau chi oll fy mod yn parhau i gymryd diddordeb yng ngwaith y Cynulliad hwn a'r rôl angenrheidiol sydd ganddo'n gynyddol wrth benderfynu ar adnoddau a deddfwriaeth ar gyfer materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fywydau pobl Cymru.

Y mae'n hanfodol i iechyd y Deyrnas Unedig a Chymru ill dwy bod ein sefydliadau democrataidd yn ffynnu ac yn addasu. Y broses etholiadol yw'r dull sylfaenol sy'n galluogi pob etholwr i gyfrannu at faterion llywodraethu. Rhannaf eich pryderon y dylid annog pawb i ddefnyddio eu hawl i bleidleisio. Mae hyn yn wir her i bob un

now before us all. R.S. Thomas once wrote:

‘Life is not hurrying

on to a receding future, nor hankering after
an imagined past.’

Members of the National Assembly for Wales, this is your time to be bridges between the devolved Government and the people of this ancient and beautiful land. I hope and pray that you will continue to debate vigorously, to deliberate wisely, and to work always for the common good. May God bless your deliberations in the months to come. [*Applause.*]

Y Llywydd: Y mae’n bleser bob amser i groesawu Tywysog Cymru.

Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru: Lywydd, Brif Weinidog ac Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae’n bleser o’r mwyaf imi ddathlu agoriad ail Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac ymunaf ag Ei Mawrhydi i longyfarch yr holl Aelodau ar gael eu hethol.

Wrth imi deithio ar hyd Cymru, o Fôn i Fynwy, o’r Drenwydd i Dyddewi—yn y Cymoedd, y trefi glan môr, y dinasoedd a’r cymunedau gwledig—gwelaf fod ei phobl yn trafod pynciau sy’n bwysig iddynt gyda hyder cynyddol ac ymdeimlad o berchenogaeth.

O ran diwylliant, o ran economi, o ran amgylchedd, mae gan Gymru ei hunaniaeth a’i llais ei hun. Mae’r Cynulliad yn rhan o’i datblygiad yn wlad unigryw, fywiog yn parchu trysor ei threftadaeth tra’n chwarae rhan bwysig o fewn y Deyrnas Gyfunol ac ar lwyfan byd-eang.

Mae’r Cynulliad mewn sefyllfa gref i fynd i’r afael â’r llawer her sy’n wynebu cymunedau amrywiol y wlad hynafol hon, a dymunaf bob llwyddiant i’w Haelodau yn eu gwaith pwysig. [*Cymeradwyaeth.*]

Y Llywydd: Yn awr, gwahoddaf y Prif Weinidog i ymateb ar ran holl Aelodau’r Cynulliad.

Y Prif Weinidog: A gaf fi yn gyntaf ddiolch

ohonom. Ysgrifennodd R. S. Thomas:

Nid yw bywyd yn rhuthro yn ei flaen

at ddyfodol enciliol, nac yn hiraethu am
orffennol dychmygol.

Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, dyma eich cyfle i bontio rhwng y Llywodraeth ddatganoledig a phobl y wlad brydferth, hynafol hon. Gobeithiaf a gweddïaf y byddwch yn parhau i drafod yn egniol, i ystyried yn ddoeth, ac i weithio er lles pawb. Boed i Dduw fendithio eich trafodaethau yn y misoedd a ddaw. [*Cymeradwyaeth.*]

The Presiding Officer: It is always a pleasure to welcome the Prince of Wales.

His Royal Highness The Prince of Wales: Presiding Officer, First Minister and Members of the National Assembly for Wales, it gives me great pleasure to celebrate the opening of the second National Assembly for Wales and I join Her Majesty in congratulating all Members on their election.

As I travel around Wales, from Anglesey to Monmouthshire, from Newtown to St Davids—in the Valleys, the coastal towns, the cities and the rural communities—I see that people are addressing issues that matter to them with increasing confidence and a sense of ownership.

In cultural terms, in economic terms, in environmental terms, Wales has its own identity and its own voice. The Assembly is part of its evolution into a distinct, vibrant country respecting the treasure of its tradition while playing an important role within the United Kingdom and on the world stage.

The Assembly is well placed to address the many challenges facing the diverse communities of this ancient land, and I wish its Members every success in their important task. [*Applause.*]

The Presiding Officer: I now invite the First Minister to respond on behalf of all Assembly Members.

The First Minister: May I first of all thank

i'r Tywysog am ei anerchiad—nid yn unig am y cynnwys ond hefyd am ei ddefnydd meistrolgar o'r Gymraeg. Dangosodd hynny nid yn unig ei barch at ein heniaith ond hefyd ei ddoniau a'i glust ieithyddol. Yr oedd hefyd, efallai, yn deyrnged i Teddy Millward, ei hen diwtor yn y brifysgol yn Aberystwyth. Yr oedd Teddy ei hunan yn ddysgwr o deulu di-Gymraeg yng Nghaerdydd ac yn un o fyfyrwyr gorau fy nhad, yr Athro T.J. Morgan, ym mhrifysgol Caerdydd yn syth ar ôl y rhyfel. I ryw raddau, felly, mae eich Cymraeg, Eich Uchelder, yn dod o'r un ffynhonnell â'm Cymraeg i.

Now, Your Majesty, Your Royal Highnesses, rumour has it that we cunningly arranged the date of the royal opening of the second National Assembly for Wales so that the senior ranks of your Government in Westminster would feel obliged to declare Cardiff to be the Cultural Capital of Europe for 2008. Well, rumour or truth—that is a little secret between us—our little ruse did not work, sadly. However, instead, Cardiff and Wales yesterday got a re-opened steelworks just over the way from this very building as a more than worthwhile consolation prize.

I wonder sometimes what is the most singular aspect of this Assembly. Is it that it is sandwiched between a real live working docks on one side and a soon-to-be working again steelworks on the other? Or is it, as you mentioned, Your Majesty, that we are the first legislature in the world to have achieved symmetric equality between men and women—with 30 men and 30 women? I believe that both are significant. We, the National Assembly for Wales, reflect accurately the society in which we live and the world of work—the world where women and men are equal. Indeed, with the Cabinet that I am proud to lead being the only one that we can find in the world where women outnumber men, one can only gasp at the transformation since 1999 in where power lies in Welsh politics. It is not the macho male world of the past, and it is not either the world of Amazons—or perhaps I should say that it is not yet the world of Amazons. It is real equality.

the Prince for his address—not only for the contents but also for his masterly command of the Welsh language. That not only displayed his respect for our ancient tongue, but also his own flair for languages. It was also, perhaps, a tribute to Teddy Millward, his former tutor in the university in Aberystwyth. Teddy himself was a Welsh learner from a non Welsh-speaking family in Cardiff and was among the best pupils of my father, Professor T.J. Morgan, in Cardiff university immediately after the war. To an extent, therefore, your grasp of the Welsh language, Your Highness, stems from the same source as my own.

Nawr, Eich Mawrhydi, Eich Uchelderau Brenhinol, yr oedd si ar led inni fod yn gyfrwys a threfnu dyddiad agoriad brenhinol ail Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel y byddai swyddogion uchaf eich Llywodraeth yn San Steffan yn teimlo rheidrwydd i ddatgan mai Caerdydd fydd Prifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008. Wel, boed hynny'n wir neu beidio—bydd hynny'n gyfrinach fach rhyngom—ni lwyddodd ein cynllwyn bach, yn anffodus. Fodd bynnag, yn lle hynny, derbyniodd Caerdydd a Chymru wobwr gysur gwerth chweil ddod wrth glywed bod gwaith dur gerllaw'r adeilad hwn yn ailagor.

Byddaf yn meddwl weithiau beth yw'r agwedd mwyaf eithriadol ar y Cynulliad hwn. Ai ei fod wedi ei leoli rhwng dociau gweithredol ar un ochr a gwaith dur fydd yn gweithio eto yn fuan ar y llall yw? Neu, fel y bu ichi sôn, Eich Mawrhydi, ai'r ffaith mai ni yw'r ddeddfwrfa gyntaf yn y byd i lwyddo i gael cydraddoldeb perffaith rhwng dynion a menywod—gyda 30 dyn a 30 menyw—yw? Yr ydym ni, Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn adlewyrchu'n gywir y gymdeithas yr ydym yn byw ynddi a'r byd gwaith—y byd lle mae menywod a dynion yn gyfartal. Yn wir, gan mai'r Cabinet yr wyf yn falch o'i arwain yw'r unig un yn y byd y gallwn ei ganfod gyda mwy o fenywod na dynion ynddo, gellir ond rhyfeddu ar y trawsnewid a fu er 1999 o ran sail grym yng ngwleidyddiaeth Cymru. Nid byd gwrywaidd 'macho' y gorffennol yw bellach, ac nid byd yr Amasoniaid yw ychwaith—neu dylwn ddweud nad byd yr Amasoniaid yw eto. Gwir gydraddoldeb yw.

The way in which we reflect the concerns of the people and the society that we represent democratically, the language we talk, the way that we express, debate and address everyday concerns over the work, health and education of the ordinary people of Wales, that is, in fact, the supreme test of any well-founded democratic institution: the relevance of what we do and say to the ordinary people out there.

Your presence here today is immensely helpful in focusing attention on our work and our deliberations. It is our job over the next four years to maintain that focus, that attention and that supreme test of relevance in everything that we do and say.

Diolch yn fawr am eich presenoldeb graslon.
[Cymeradwyaeth.]

Y gwir brawf ar gyfer unrhyw sefydliad democrataidd sydd â sail gadarn, mewn gwirionedd, yw'r modd yr adlewyrchwn yn ddemocrataidd bryderon y bobl a'r gymdeithas a gynrychiolwn, yr iaith a siaradwn, y modd y byddwn yn cyfleu, yn trafod ac yn mynd i'r afael â phryderon cyffredin o ran gwaith, iechyd ac addysg pobl gyffredin Cymru: perthnasedd yr hyn a wnawn a'r hyn a ddywedwn i bobl gyffredin Cymru y tu allan i'r sefydliad hwn.

Mae eich presenoldeb yma heddiw yn hynod ddefnyddiol i ganolbwyntio sylw ar ein gwaith a'n trafodaethau. Ein gwaith dros y pedair blynedd nesaf yw cynnal y ffocws a'r sylw hwnnw a'r prawf pennaf o ran perthnasedd popeth a ddywedwn ac a wnawn.

Thank you for your gracious presence.
[Applause.]

*Gadawodd y Parti Brenhinol y Siambr am 12.20 p.m.
The Royal Party departed the Chamber at 12.20 p.m.*